CYNGOR TREF NEFYN

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 14/10/2025 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Gwynfor Jones | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Rhian Sanson | Rhys Llewelyn | Caren Jones | Gito Williams | Gruffudd Griffiths |
| Lleucu Jones | Pat Humphreys (Clerc) | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Iwan Evans, Carys Roberts a Catrin Roberts.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Dim.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 16/09/2025
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Gwynfor Jones   Eilio: Rhys Llewelyn

   **Materion yn codi o'r cofnodion**
   Cafwyd diweddariad ar y Gôf Golofn, mae'r Clerc wedi anfon y wybodaeth angenrheidiol i'r cwmni yswiriant ac yn aros iddynt gadarnhau ei bod yn iawn i gychwyn y gwaith trwsio. Mae hi am yrru ebost iddynt os na bydd cadarnhad wedi ei dderbyn cyn ddiwedd yr wythnos er mwyn ceisio cael gwneud y gwaith cyn Sul y Cofio.
   Mae un o aelodau Edern am fynd i glirio o amgylch Côf Golofn Edern cyn Sul y Cofio gan fod drain wedi tyfu drosodd o'r cae.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   1. **Llwybr Tŷ Coch –** Gito Williams
      Mae llwybr Tŷ Coch dal ar gau oherwydd bod yr arwydd a'r potiau blodau yn rhwystro cerddwyr rhag cerdded y llwybr. Mae aelod lleol Morfa am fynd ar ei ôl.
   2. **Llwybr Waen –** Gruffydd Williams
      Derbyniwyd cadarnhad fod perchennog y tir am wneud y gwaith o ail wynebu'r llwybr yma a'i wneud yn un aml ddefnydd ar yr amod bod CTN yn cytuno i drin y gwrychoedd ar hyd y llwybr o hyn ymlaen.
      Penderfyniad: mae CTN yn cytuno i'r amod, fe fydd yn rhaid ei ychwanegu i'r tendar llwybrau newydd, ac yn hapus i'r gwaith gario ymlaen. Mae aelod lleol Nefyn am gysylltu hefo Dewi Wyn Owen i gadarnhau hyn.
      Cynnig: Arfon Hughes   Eilio: Gwynfor Jones

CYNGOR TREF NEFYN



5. **Sul y Cofio –** Clerc
   Aeth y Clerc drwy'r trefniadau a dewiswyd cynrychiolwyr i blismona cau y ffyrdd ar Sul y Cofio a Dydd y Cofio a cynrychiolwyr i osod y torchau, mae'r Clerc am atgoffa pawb yn nes at yr amser.

6. **Alan Adams –** Clerc
   Mae'r Clerc wedi cael cyngor gan Un Llais Cymru ar y mater ac am anfon llythyr i'r ymgymerwr hefo'r taliad olaf am y gwaith ychwanegol a cadarnhau bod y cytundeb wedi dod i ben ar y 1af Medi 2025 yn unôl â'r amod ar y llythyr dyddiedig 4ydd Awst 2025.
   Fe fydd rhaid trefnu cyfarfod brys o'r is-bwyllgor llwybrau a mynwentydd ac mae'r Clerc am drefnu hynny.

7. **Gosod y coed nadolig –** Clerc
   Oherwydd yr holl gwynion a dderbyniwyd am y coed a'r goleuadau y llynedd a'r flwyddyn cynt penderfynwyd gofyn i gontractwr arall i osod y coed nadolig eleni.
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes

8. **Llyfrgell Nefyn –** Clerc
   Mae'r Clerc wedi cael pris gan y trydanwr am 2 wresogydd newydd i'r llyfrgell ac mae adeiladwr wedi bod yn gweld y tamp yno hefyd.
   Penderfyniad: derbyniwyd y pris gan y trydanwr a gofynwyd i'r Clerc gysylltu hefo'r adeialdwr a wnaeth y newidiadau mewnol i fynd yn ôl yna i edrych ar y tamp.
   Cynnig: Mared Llewelyn Williams Eilio: Arfon Hughes

9. **Cais am Diffib wrth ymyl Bro Gwylwyr –** Carys Roberts
   Cafwyd diweddariad gan y Clerc. Mae Eglwys Dewi Sant wedi cytuno i symud y diffib i lawr i'r Amgueddfa ond gan fod yr Amgueddfa yn Adeilad Rhestredig maent wedi gorfod cysylltu hefo'r adran gynllunio i weld os y bydd angen caniatad i'w osod yno. Fe fydd yn rhaid cael cabinet newydd gan fod y cabinet presennol wedi rhydu a'r pris ydi £391 + pris gosod y trydanwr. Fe fydd rhaid aros i dderbyn ymateb gan yr Amgueddfa cyn symud ymlaen.

10. **Cynnal a chadw'r cae aml ddefnydd –** Clerc
    Penderfynwyd defnyddio'r cwmni sydd wedi rhoi pris i CTN gan mai'r cwmni yma sydd yn cynnal a chadw pob cae aml ddefnydd yn yr ardal yma.
    Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gareth Jones

11. **Cwn ar draeth Nefyn –** Gruffydd Williams
    Mae nifer o gwynion wedi eu derbyn am gwn ar draeth Nefyn yn ystod yr haf. Nid oes arwydd yno ac mae hi'n mynd i fod yn anodd rheoli hyn gan fod yna lwybr cyhoeddus ym mhen pellaf y traeth, mae ymwelwyr yn dod i aros yn y tai sydd eto ym mhen pellaf y traeth ac yn dod a cwn hefo nhw a

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

mae'r bobol sydd berchen y cytiau sydd ar y traeth yn dod a'u cwn hefo nhw hefyd. Yr unig beth y gellir ei wneud ydi rhoi arwydd 'cwn ar dennyn' i fyny yno. Mae aelod lleol Nefyn am gysylltu hefo yr adran forwrol i drafod hyn ac mae'r Clerc am ei roi ar agenda mis Ionawr.

**12. Bryn Edern –** Gito Williams

Mae pryderon am beth sydd yn mynd ymlaen yn y cyfeiriad uchod ac fe gafwyd eglurhad gan aelod lleol Edern.

**13. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

Dim.

**14. Ceisiadau Cynllunio**

1. **C25/0660/42/LL** - Plas Mawr, Mynydd Nefyn - ail gyflwyniad o gais llawn i drosi ac ymestyn adeilad amaethyddol allanol i lety gwyliau hunan gynhaliol C6 ynghyd a chreu mynediad newydd a gosod offer trin.
   Penderfyniad: Gwrthod – gormodedd o unedau gwyliau yn yr ardal.
   Cynnig: Gruffudd Griffiths Eilio: Rhys Llewelyn
2. **C25/0682/42/AC** - Tir Ger Helyg, Tai Lôn, Nefyn - cais i ddileu amod 17 ar ganiatâd cynllunio C24/1119/42/LL yn ymwneud a gofod chwarae gyda chyfarpar i blant.
   Penderfyniad: Gwrthod - Hawl i blant chwarae'n saff yn eu hardaloedd.
   Seliwyd y ddeddfwriaeth yma er mwyn sicrhau fod plant bach yn gallu chwarae yn saff yn agos at eu cartrefi. Mae'r cais cynllunio wedi ei ganiatáu yn rhannol oherwydd fod yr amod o le chwarae yn rhan annatod o'r cais. Mae yna offer chwarae i fod yna hefyd yn unol ar amod. Sarhaus ydi cynnig Williams Homes i ddiddymu'r amod yma a chynnig llai na dwy fil o bunnoedd i'r Cyngor Tref cael gwella offer chwarae yn y Ddol sydd o leiaf hanner milltir o'r safle. Ni ellir hyd yn oed prynu un swing am llai na thair mil gan gynnwys ei osod gan gwmni gyda yswiriant arbennig gan gynnwys matiau diogelwch.
   Mae Cyngor Tref Nefyn yn gwrthwynebu'r cais yma yn seiliedig ar y wybodaeth uchod.
   Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Gruffudd Griffiths

**15. Ceisiadau Diweddarach**

Dim.

**16. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1496.18 (taliad Bacs)
- D M Parry – ail daliad mynwent Edern a Nefyn - £1540.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

- E.On Next – trydan Llyfrgell mis Medi - £110.45
- John Gwynfor Jones – agor bedd William Moss Ingham - £115.00
- HMRC – PAYE mis 6 - £396.05
- Bacstal Pac – gwasanaeth cyflogau – £173.28
- John Gwyfor Jones – agor bedd Helen Louisa Roberts - £600.00

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gwynfor Jones

**17. Taliadau wedi eu derbyn**

- Ifan Hughes – angladd Yvonne Ann Adams - £395.00